

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458  
(SPRING BANK, Y TRALLWNG, POWYS)  
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, yn y Trallwng, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, bysiau trafndiaeth gyhoeddus neu gerbydau gwasanaeth cynnal a chadw yn ystod y gaeaf, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o bwynt 250 o fetrau i'r dwyrain o ganol y fynedfa i'r anedd o'r enw Spring Bank, y Trallwng, hyd at bwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganol y fynedfa honno.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar yr A458 tua'r dwyrain i Gylchfan Raven, ar yr A490 tua'r gogledd, ar yr A495 tua'r de-orllewin ac ar yr A458 tua'r dwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 8 Rhagfyr 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ysbeidiol rhwng 09:00 o'r gloch ar 8 Rhagfyr 2021 ac 16:00 o'r gloch ar 31 Mawrth 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd y ffordd yn cael ei chau cyn lleied â phosibl yn ystod y cyfnod hwn.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafndiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafndiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A458 TRUNK ROAD (SPRING BANK,  
WELSHPOOL, POWYS) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road at Welshpool, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services, for the works, public transport buses or winter maintenance service vehicles, from proceeding on the length of the A458 trunk road that extends from a point 250 metres east of the centre of the access to the dwelling known as Spring Bank, Welshpool to a point 220 metres east of the centre of that access.

The alternative route for westbound vehicles is via the eastbound A458 to Raven Roundabout, northbound A490, south-westbound A495 and eastbound A458: vice versa for eastbound vehicles.

The Order comes into force on 8 December 2021. The temporary prohibition is expected to operate on an intermittent basis between 09:00 hours on 8 December 2021 and 16:00 hours on 31 March 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Road closures will be kept to a minimum during this period.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government